

# Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

## 3. Gweithio gydag eraill

### 3.10 Rhwymedïau cyfraith gyhoeddus-herio penderfyniadau cyrff cyhoeddus



## Cyflwyniad

Mae pob mudiad gwirfoddol yn mawr ofni newyddon o doriadau mewn cyllid, ond mae llawer o fudiadau'r trydydd sector yn cael eu hunain yn y sefyllfa hon oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol. Tra na ellir osgoi rhai toriadau, mae cyrff cyhoeddus weithiau'n gwneud penderfyniadau cyllido y gallech eu herio. Mae'r daflen wybodaeth hon yn amlinellu beth a ddisgwylir gan gyrff cyhoeddus, pryd y gellir herio penderfyniad, sut mae herio penderfyniad, a phwy sy'n gallu helpu.

## Cefndir

Cytundeb yw [Cynllun y Trydydd Sector](#) ('y Cynllun') rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector yng Nghymru, a wneir o dan Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n amlinellu sut y mae Gweinidogion Cymru'n cynnig hybu buddiannau mudiadau gwirfoddol perthnasol ac yn pennu sut y maent yn cynnig darparu cymorth (gan gynnwys cymorth ariannol) i'r mudiadau gwirfoddol hynny.

Yn unol â'r Cynllun, mae Llywodraeth Cymru wedi annog awdurdodau unedol Cymru i gytuno ar 'gompactau' lleol (cytundebau partneriaeth) gyda chyrff trydydd sector sy'n gweithredu yn eu hardaloedd. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cytuno ar gompactau lleol.

Mae'r Cynllun hefyd yn amlinellu cyfres o amcanion ac ymrwymïadau i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus penodol eraill eu bodloni. Mae'r rhain yn cynnwys ymrwymiad i gynnal Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector ('y Cod Ariannu') a rhwymedigaeth gadarnhaol ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod polisiau sy'n ymwneud â'r trydydd sector yn cynnwys cymorth ariannol i'r sector.

## Y Cod Ariannu

Mae'r Cod Ariannu yn gosod yr egwyddorion allweddol sy'n tanategu cyllid Llywodraeth Cymru i'r trydydd sector, a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan y trydydd sector yn gyfnewid. Ceir tair rhan wahanol yn y Cod Ariannu, ac mae'r cyntaf o'r rhain yn gosod yr 17 o egwyddorion y mae'n **rhaid** i Lywodraeth Cymru, ei hadrannau, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (fel Cyngor Celfyddydau Cymru), cyrff y GIG ac yn y blaen, gadw atynt wrth ariannu'r trydydd sector. Gan fod yn rhaid cadw at yr egwyddorion, gall ymgyswngwr â nhw eich helpu i'w defnyddio er mantais i chi.

Dyma'r egwyddorion:

1. Cyflwyno amcanion polisi strategol
2. Parch at annibyniaeth y sector
3. Deialog gynnar ac adeiladol
4. Penderfyniadau amserol
5. Sicrwydd cyllid
6. Lefelau cyllid teg
7. Gwerth am arian
8. Adennill costau llawn
9. Egwyddorion comisiynu
10. Taliadau
11. Triniaeth deg a rhesymol
12. Agwedd gydweithredol tuag at fonitro, gwerthuso ac archwilio
13. Canfod arbenigedd a datblygu gallu i gyflawni
14. Amrywiaeth
15. Arloesi
16. Llywodraethu da a diwydrwydd dyladwy
17. Monitro'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd awdurdodau lleol hefyd yn glynu at y Cod Ariannu. Er nad oes rhaid iddynt wneud hynny, mae rhai awdurdodau lleol wedi cytuno i'w ddilyn.

Lawrlwythwch gopi o'r Cod Ariannu [yma](#) (fe'i cyhoeddir mewn Atodiad i'r Cynllun) neu gofynnwch am gopi ar bapur gan [thirdsectorqueries@wales.gsi.gov.uk](mailto:thirdsectorqueries@wales.gsi.gov.uk)

## **A yw'r Cynllun a'r Cod Ariannu yn ddewisol?**

Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar y Cynllun a bod awdurdodau lleol wedi cytuno ar 'gompactau' lleol yn arwydd o'u hymrwymiad i'r trydydd sector. Efallai nad yw'r ymrwymiad hwn yn ymrwymiad drwy gontract, ond nid yw hynny'n golygu mai ymrwymiad dewisol ydyw.

Gall methu â chydymffurfio â'r Cynllun, y Cod Ariannu neu gompact lleol olygu y *gallai* penderfyniad a wnaeth Llywodraeth Cymru neu awdurdod lleol fod wedi methu â chydymffurfio ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Mewn achosion o'r fath, *efallai* y bydd rhwymedïau cyfraith gyhoeddus ar gael i wneud iawn i'r rheini yr effeithiodd y penderfyniad arnynt.

## **Pwerau a dyletswyddau cyrff cyhoeddus**

Yn wahanol i fod byw, nid yw corff cyhoeddus yn rhydd i wneud unrhyw beth y mae'n ei ddewis cyn belled nad yw'n anghyfreithlon. Rhaid i gorff cyhoeddus fod â *phŵer* neu *ddyletswydd* i wneud rhywbeth er mwyn ei wneud:

- Dyletswyddau yw pethau y mae'n 'rhaid' i gorff cyhoeddus eu gwneud, neu y 'bydd' yn eu gwneud. Mae gan gyrff cyhoeddus nifer o ddyletswyddau yng nghyswllt anabledd, hil a rhywedd er enghraifft.
- Mae pwerau'n ddewisol. Pwerau yw pethau y 'caiff' corff cyhoeddus ddewis eu gwneud.

## Herio penderfyniad

Gellir herio penderfyniadau cyrff cyhoeddus mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- Gweithdrefnau cwyno
- Cynlluniau ombwdsmon
- Adolygiad barnwrol

Y ffordd orau o ddatrys anghydfod yw sefydlu deialog gyda'r corff cyhoeddus dan sylw ac archwilio a yw'n bosibl cytuno ar y ffordd ymlaen.

Bydd gwahanol ddulliau o ddatrys anghydfod yn gweddu i wahanol amgylchiadau, ac argymhellir fel arfer y dylid rhoi cynnig ar y rhain cyn ystyried mynd ag achos i'r llys.

Efallai mai achos llys fydd yr unig rwymedi sydd ar gael mewn rhai achosion, ac mae cyfyngiadau amser llym i ddwyn hawliad am adolygiad barnwrol (gweler isod). Weithiau, felly, mae angen gwneud cais o'r fath hyd yn oed pan nad yw rwymedïau eraill wedi'u ceisio.

## Gweithdrefnau cwyno

- Os hoffech wneud cwyn ynglŷn â phenderfyniad a wnaed gan Lywodraeth Cymru, bydd angen i chi gyfeirio at ei [Pholisi Cwynion](#) a dilyn y [gweithdrefnau ar ei gwefan](#).
- Rhaid i awdurdodau lleol benodi swyddog monitro i fonitro prosesau penderfynu yn yr awdurdod. Bydd y swyddog monitro'n adolygu gweithredoedd a hepgoriadau'r awdurdod i sicrhau nad oes unrhyw ddyletswydd statudol, cod ymarfer na rheol gyfreithiol yn cael eu torri. Caiff mudiad trydydd sector wneud cais am i'r swyddog monitro adolygu prosesau neu ganlyniadau os yw'n credu eu bod yn annheg neu'n anghyfreithlon. Dylai fod manylion y swyddog monitro a manylion am sut i gyfeirio cwyn at y swyddog monitro ar gael ar wefan eich awdurdod lleol. Os nad ydynt, ffoniwch eich awdurdod lleol a gofyn am gael siarad â'r swyddog monitro.
- Gall fod yn bosibl atal penderfyniad awdurdod lleol rhag cael ei roi ar waith. Ceir cyfnod byr iawn (pum diwrnod!) cyn y gall penderfyniad adran weithredol awdurdod lleol gael ei roi ar waith, pan fo modd galw ar Bwyllgor Craffu'r awdurdod lleol i ystyried y penderfyniad. I fanteisio ar y dull cwyno hwn, bydd angen i chi wybod pryd y caiff penderfyniad ei wneud, bod yn gyfarwydd â rheolau trefniadol yr awdurdod lleol a bod wedi llobio am gefnogaeth gan ddigon

o aelodau a fydd yn penderfynu a ddylid galw am i'r penderfyniad gael ei ystyried.

## **Cynlluniau ombwdsmon**

Os ydych chi wedi dioddef anghyfiawnder o ganlyniad i gamweinyddu, efallai y gallwch gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon perthnasol. Bydd angen i chi ddilyn trefn gwyno'r corff cyhoeddus yn llwyr cyn cyfeirio'r mater, ond ar adegau, bydd yr Ombwdsmon yn ystyried cwyn heb i'r drefn gwyno gael ei dilyn yn llwyr. Un o fanteision y broses hon yw na fydd angen cyngor cyfreithiol arnoch, ond gall fod yn broses araf ac nid yw argymhellion yr Ombwdsmon yn orfodol i'r corff cyhoeddus.

## **Adolygiad barnwrol**

Datblygwyd mecanwaith 'adolygiad barnwrol' gyda golwg ar wella ansawdd proses benderfynu cyrff cyhoeddus. Mae'n fath o achos llys lle mae barnwr yn adolygu cyfreithlondeb penderfyniad neu weithred a wnaed gan gorff cyhoeddus, neu fethiant corff cyhoeddus i weithredu: nid yw'n ceisio goruwchreoli pwerau'r corff cyhoeddus hwnnw.

Ni ellir dwyn achosion adolygiad barnwrol os yw rhywun yn anhapus yn unig â rhyw benderfyniad. Rhaid bod pryder gwirioneddol y gwnaed y penderfyniad dan sylw mewn modd anghyfreithlon. Hefyd, ni fydd y llys yn ystyried achos adolygiad barnwrol onid oes perygl gwirioneddol y bydd y penderfyniad yn achosi anghyfiawnder i'r sawl a gwynodd.

Y seiliau cyffredinol ar gyfer dwyn adolygiad barnwrol yw:

- Anghyfreithlondeb
- Anrhesymoldeb
- Disgwyliad dilys, ac
- Annhegwch trefniadol.

Adwaenir y tair sail gyntaf yn seiliau sylweddol gan eu bod yn ymwneud â sylwedd y penderfyniad sy'n destun dadl. Mae annhegwch trefniadol yn sail drefniadol oherwydd mae'n ymwneud â'r weithdrefn benderfynu, yn hytrach na chynnwys y penderfyniad ei hun. Dim ond arwyddion yw'r tair sail fodd bynnag: gallai'r un set o ffeithiau ennyn dwy neu dair sail am adolygiad barnwrol.

## **Anghyfreithlondeb**

Gall penderfyniad fod yn anghyfreithlon am sawl rheswm gwahanol. Does dim rheolau pendant i'w dosbarthu, ond dyma enghreifftiau cyffredin o achosion lle byddai'r llysoedd yn barnu bod penderfyniadau gweinyddol yn anghyfreithlon:

- Mae'r corff cyhoeddus wedi gweithredu y tu allan neu'r tu hwnt i'w bwerau cyfreithiol

- Gwnaed camgymeriad o ran y gyfraith neu ffeithiau. Bydd y llys yn diddymu penderfyniad pan fo'r corff cyhoeddus dan sylw wedi camddeall term cyfreithiol neu ddadansoddi ffaith, sy'n hanfodol i wneud penderfyniad sy'n gyfreithlon, yn anghywir
- Mae'r corff cyhoeddus wedi dirprwyo penderfyniad y mae'n llwyr gyfrifol amdano, hynny yw, mae'r is-ddirprwyo hwnnw'n anghyfreithlon

## **Anrhesymoldeb**

Er mwyn llwyddo ar y sail hon, byddai'n rhaid i lys ddod i'r casgliad na allai unrhyw gorff cyhoeddus sy'n cyfarwyddo ei hun yn briodol o ran y gyfraith berthnasol fod wedi gwneud y penderfyniad a wnaeth ar sail y deunydd ger ei fron, neu fod y penderfyniad yn afresymol mewn ffordd arall. Mae'n hynod o anodd llwyddo gyda chais mewn adolygiad barnwrol sydd wedi'i seilio'n llwyr ar anrhesymoldeb oherwydd y trothwy uchel gofynnol, ond nid yw llwyddo'n amhosibl.

## **Disgwyliad dilys**

Pan fo corff cyhoeddus wedi creu disgwyliad dilys y gallai fod gan unigolyn neu gorff arall hawl i fudd neu weithdrefn benodol, gellir ystyried y byddai mor annheg i gorff cyhoeddus dorri'r disgwyliad hwnnw nes y byddai'n gyfystyr â chamddefnyddio pŵer. Yn gyffredinol, bydd disgwyliad dilys yn digwydd:

- os yw'r corff cyhoeddus wedi datgan yn glir, yn ddiamwys ac yn ddiamod y bydd yn gweithredu mewn ffordd benodol
- os yw'r unigolyn neu'r corff dan sylw wedi gweithredu'n unol â'r disgwyliad hwnnw ac ar ei golled o ganlyniad i hynny, ac
- os nad oes dim budd cyhoeddus gor-redol i gyfiawnhau'r penderfyniad i beidio ag anrhydeddu'r disgwyliad dilys hwnnw.

Er enghraifft, mae'r Cynllun a'r Cod Ariannu yn cynnwys datganiadau (hynny yw, gwybodaeth) am weithredoedd cyrff cyhoeddus. Bydd gan fudiad trydydd sector sy'n dibynnu ar y datganiadau hynny ddisgwyliad dilys y caiff y datganiadau hynny eu cyflawni gan y corff cyhoeddus dan sylw. Os na fydd y corff cyhoeddus yn gwneud hynny, ni fydd yn bodloni'r disgwyliad dilys hwnnw, a gall ei benderfyniad fod mor annheg nes ei fod yn gyfystyr â chamddefnyddio pŵer.

Ceir rhai amgylchiadau a fyddai'n cyfiawnhau i gorff cyhoeddus dorri addewid neu arferion pan fo hynny'n ddyletswydd gyfreithiol ar y corff cyhoeddus neu'n ymateb cymesur yng nghyswllt amcan dilys corff cyhoeddus sydd er budd i'r cyhoedd. Bydd y llys yn cynnal asesiad gwrthrychol o gymesuredd yr ymateb i'r sefyllfa.

## **Annhegwch trefniadol**

Mae tair agwedd ar annhegwch trefniadol yn codi'n aml mewn ceisiadau am adolygiad barnwrol:

1. **Methu ag ymgynghori.** Cytunir yn gyffredinol ei bod yn arfer da i gorff cyhoeddus ymgynghori â'r rheini y bydd penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, cyn gwneir y penderfyniad terfynol. Nid oes rhaid i gyrrff cyhoeddus bob amser ymgynghori fodd bynnag; rhaid i'r corff cyhoeddus fod wedi methu ag ateb rhyw rwymedigaeth gyfreithiol i ymgynghori er mwyn i'r agwedd hon ar annhegwch trefniadol lwyddo.
2. **Tuedd a phenderfynu o flaen llaw.** Os oes gan y penderfynwr unigol (neu rywun agos ato) ddi-ddordeb personol uniongyrchol yng nghanlyniad y penderfyniad, gallai hyn olygu bod y penderfyniad wedi'i lygru gan duedd. Hefyd, mae'n iawn i gorff cyhoeddus gael rhagdueddiad tuag at benderfyniad penodol (hynny yw, meddwl agored ond nid o reidrwydd meddwl gwag), ond nid yw'n dderbyniol i benderfyniad gael ei bennu o flaen llaw (hynny yw, ni chaiff y corff cyhoeddus gael meddwl caeedig i benderfyniadau amgen o'r dechrau).
3. **Methu â rhoi rhesymau.** Os oes gan gorff cyhoeddus ddyletswydd statudol i roi rhesymau dros ei benderfyniadau, yna rhaid i'r rhesymau hynny fodloni safon eglurder ofynnol a rhaid iddynt ddelio gyda'r holl bwyntiau o bwys a godwyd.

## **Sut gallwch ddwyn hawliad am adolygiad barnwrol?**

Rhaid dwyn hawliad am adolygiad barnwrol o fewn tri mis ar ôl y penderfyniad, y weithred neu'r hepgoriad sy'n cael ei herio. Fodd bynnag, dylid dwyn hawliadau cyn gynted â phosibl, gan y gall y llys wrthod rhoi caniatâd i ddwyn yr hawliad hyd yn oed os yw o fewn yr amserlen tri mis os credir y gallech fod wedi dwyn yr hawliad yn gynt. Gall llys hefyd wrthod caniatáu rhwymedi os yw'r rhwymedi wedi dod yn academig neu os gellid bod wedi defnyddio rhwymedi arall digonol.

Os ydych dal o fewn y terfyn amser, ac mae gennych achos y gellir efallai ei wneud ar sail un neu fwy o'r seiliau a amlinellir uchod, yna bydd angen i chi ddilyn proses tri cham er mwyn dwyn hawliad:

1. Anfonwch llythyr at y corff cyhoeddus perthnasol. Gelwir y llythyr hwn y 'llythyr cyn hawlio' a rhaid iddo wneud y canlynol:
  - nodi'r penderfyniad, y weithred neu'r hepgoriad rydych yn ei herio
  - crynhoi'r ffeithiau, gan gynnwys y rhesymau dros herio
  - datgan yr hyn yr hoffech i'r corff cyhoeddus ei wneud i unioni'r sefyllfa, ac erbyn pryd (dylech ganiatáu 14 diwrnod iddo ymateb cyn i chi ddwyn achos yn ei erbyn).
2. Os na ellir datrys y sefyllfa drwy anfon llythyr cyn hawlio, gallwch wedyn ystyried ffeilio ffurflen hawlio gyda'r llys, gan fanylu ar seiliau'ch hawliad am adolygiad barnwrol (bydd angen i dystiolaeth ysgrifenedig, megis datganiadau tystion a dogfennau atodol, gael ei chynnwys gyda'r ffurflen hon). Bydd rhaid i chi hefyd wneud cais i'r llys am ganiatâd i ddwyn hawliad am adolygiad barnwrol.

3. Os rhoddir caniatâd i ddwyn hawliad, bydd yr achos mater wedyn yn mynd at wrandawriad.

## **Ariannu'ch achos**

Ni fydd gan fudiadau hawl i gael cymorth cyfreithiol, ond os yw'r penderfyniad yn effeithio ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion megis defnyddwyr gwasanaeth, gall fod yn bosibl i'r unigolion hynny gael cymorth cyfreithiol i ddilyn achos am adolygiad barnwrol.

Efallai y gall rhai elusennau megis yr Uned Bar Pro Bono a'r Prosiect Cyfraith Gyhoeddus hefyd ddarparu mynediad at gynrychiolaeth gyfreithiol i fudiadau.

## **Canllaw cam-wrth-gam ar reoli anghydfodau gyda chorff cyhoeddus**

Os oes rhaid dwyn achos yn erbyn corff cyhoeddus ynghylch penderfyniad mae'r corff wedi'i wneud, argymhellir i chi ddilyn y camau hyn:

1. Casglu gwybodaeth
2. Dadansoddi'r broblem
3. Paratoi'ch tystiolaeth
4. Penderfynu ar dactegau

## **Casglu gwybodaeth**

1. Pennu natur y cyllid.
  - Canfod ar ba sail gyfreithiol roedd yr arian yn cael ei ddarparu, neu am gael ei ddarparu. Os cafodd ei ddarparu dan gontract, neu os oedd am gael ei ddarparu dan gontract, efallai y bydd y rhwymedïau sydd ar gael i chi y tu allan i gyfraith gyhoeddus.
  - Os nad yw'r penderfyniadau'n ymwneud ag ariannu, archwiliwch y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniad.
  - Pa bolisïau, gweithdrefnau a chyfarwyddyd sy'n berthnasol i'r broses benderfynu?
2. Darganfod sut y caiff cyllidebau eu pennu; gallai hyn ddangos bod y toriad mewn cyllid yn ymateb anghymesur.
3. Pa ffactorau a ystyriwyd neu na chawsant eu hystyried gan y corff a wnaeth y penderfyniad?
4. Pa resymau a roddwyd am y penderfyniad rydych chi'n dymuno ei herio?
5. Pwy wnaeth y penderfyniad? Awdurdod Lleol, un o adrannau Llywodraeth Cymru, Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru neu un o gyrff y GIG?

6. Os awdurdod lleol a wnaeth y penderfyniad, a oes compact neu gytundeb partneriaeth ar waith gyda chyrff trydydd sector yn yr ardal awdurdod lleol honno ac a yw'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu'r Cod Ariannu?

## **Dadansoddi'r broblem**

1. Byddwch yn glir am natur y penderfyniad rydych chi'n dymuno ei herio. A yw'n benderfyniad i beidio â rhoi arian grant, i leihau arian grant neu i ddiweddu ariannu? Nodwch beth rydych chi'n dymuno ei herio mewn un frawddeg syml.
2. Byddwch yn glir am yr hyn a aeth o'i le. Ai un gwall mawr ydoedd, ynteu gyfres o gangymeriadau?
3. Adolygwch eich ymddygiad eich hun. A ydych chi wedi datgan eich achos yn glir? A allech chi fod wedi cymryd unrhyw gamau i atal y broblem rhag codi?
4. Nodwch beth rydych chi'n dymuno ei herio mewn un frawddeg syml. Byddwch yn glir am y broses a arweiniodd at wneud y penderfyniad.
  - A oedd y broses yn deg? Os nad oedd, mewn termau syml, beth oedd o'i le â'r broses? Peidiwch â chanolbwyntio ar rinweddau'r penderfyniad. Yn hytrach, ystyriwch a gafwyd cyfnod o ymgynghori ymlaen llaw? Os cafwyd, a oedd y cyfnod hwnnw'n ddigonol ac a gawsoch yr wybodaeth yr oedd ei hangen arnoch i sicrhau bod y broses ymgynghori honno'n effeithiol?
  - A oes unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu yn erbyn y trydydd sector? A gafodd disgwyliad dilys o arian ei roi i chi, a'i dynnu'n ôl yn ddiweddarach? Os felly, sut y cafodd eich disgwyliadau eu codi ac a ydych chi wedi dioddef unrhyw ragfarn o ganlyniad i'r disgwyliad dilys hwnnw? Beth ddywedwyd wrthyh chi am lefel yr arian a oedd ar gael pan wnaethoch chi gais am arian?

## **Casglu tystiolaeth**

1. Drafftioch gronoleg o ddigwyddiadau.
2. Casglwch eich ffurflenni cais, eich cytundebau grant, eich llythyr ariannu a phob gohebiaeth am y mater perthnasol gyda'r corff cyhoeddus.
3. Canfyddwch a chadwch bob tystiolaeth sy'n ymwneud â'r broses resymu – nodiadau cyfarwyddyd, dogfennau polisi, nodiadau presenoldeb cyfoes o drafodaethau a chyfarfodydd, cofnodion a thoriadau o bapurau newydd.
4. Cadarnhewch drafodaethau drwy gyfrwng llythyrau.
5. Gofynnwch gwestiynau a chadwch nodiadau ysgrifenedig o atebion, enwau, dyddiadau ac amseroedd.



## **Penderfynu ar dactegau**

1. Nodwch y terfynau amser. Rhaid i her adolygiad barnwrol ddechrau o fewn tri mis ar ôl gwneud y penderfyniad, a rhaid i chi ddwyn yr hawliad cyn gynted ag y gallwch o fewn y cyfnod hwnnw.
2. Beth rydych chi'n ceisio ei gyflawni? A ydych chi am i'r penderfyniad gael ei ddiddymu? A ydych chi'n dymuno gorfodi penderfyniad nad yw corff cyhoeddus wedi gweithredu arno eto? A ydych chi'n dymuno cwyno er mwyn gwella arferion yn gyffredinol yn y dyfodol?
3. Ystyriwch pa lwybr rydych chi am ei ddilyn – gweithdrefn gwyno, ombwdsmon a/neu adolygiad barnwrol. Mae'n well ceisio dilyn y rhwymedïau eraill yn llwyr cyn dwyn adolygiad barnwrol; fodd bynnag, rhaid i chi gadw o fewn terfyn amser adolygiadau barnwrol os penderfynwch ddwyn hawliad am adolygiad barnwrol.

## Gwybodaeth bellach

**Uned Bar Pro Bono:** elusen sy'n helpu i ganfod cyngor cyfreithiol pro bono (am ddim) gan fargyfreithwyr. Dim ond ar gael i bobl na allant fforddio talu ac na allant gael arian cyhoeddus.

Ffôn: 020 7611 9500

[www.barprobono.org.uk](http://www.barprobono.org.uk)

**Y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus:** elusen genedlaethol annibynnol sy'n anelu at wella mynediad at rwymedïau cyfraith gyhoeddus i bobl sy'n wynebu rhwystrau oherwydd tlodi, gwahaniaethu neu resymau tebyg eraill.

Ffôn: 0845 345 9253

[www.publiclawproject.org.uk](http://www.publiclawproject.org.uk)

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA):** Mae Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol WCVA yn darparu gwybodaeth ac arweiniad am ddim ar ystod eang o faterion cyfreithiol.

Rhadffôn 0800 2888 329

Ebost [help@wcva.org.uk](mailto:help@wcva.org.uk)

Neges destun 07797 805 628

### Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

**Mantell Gwynedd**

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

[ymholiadau@mantellgwynedd.com](mailto:ymholiadau@mantellgwynedd.com)

Ffacs: 01286 678430

[www.mantellgwynedd.com](http://www.mantellgwynedd.com)



Ffôn: 0800 2888 329

[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli  
Wedi ei ddiweddarau: 30/07/2015